



Lluniau Keith
O'Brien o
"waedleuad y
blaidd" bore'r 21
Ionawr eleni.



Cyn i'r haul godi




Cyrraedd am 7 wrth y llyn a'r llun uchod wedi ei dynnu 10 munud cyn i'r haul godi am 7.50, 31 Ionawr 2019. Tynnwyd y llun isod ar ôl i'r haul godi ond y pinc wedi diflannu.

Hefin Owen



Dan wres Awstralia



llun JB o'r iar swil



llun JB o'r ceiliog ifanc

Ddoe (18 Ionawr 2019), â'r tymeredd fymryn o dan y 40°C, dan gymylau trwm, daeth galwad digamsyniol y côel dwyreiniol. Mae'r aderyn yn mudo yma o dde-ddwyrain Asia yn y gwanwyn a'r haf cynnar i nythu. Yn fath o gog, mae'r fenyw yn dodwy ŵy sengl mewn nyth aderyn letyol, fel arfer y felysor tagelloch coch. Mae cyw'r côel wedyn yn taflud cywion y melysor allan o'r nyth.

John Bundock

Dolenni perthnasol difyr

Côel ar Wikipedia:

<https://goo.gl/mz6rEW>

'It's like hell here',
by Naaman Zhou -
The Observer

<https://goo.gl/R2epyh>

Dan olau'r lamp



Dail yn dal eu gafael dan olau'r lamp. (Caerdydd). Mae coeden gyfagos yn dangos yr un duedd ond mae llai o ddail ar honno erbyn hyn.

Menna Thomas

Diddorol iawn. Be di'r fecanwaith yma (1. gwres y lamp? 2. y golau? 3. y ddau? rhywbeth arall? 4. cyddigwyddad? Dwi erioed wedi clywed son am y ffenomenon yma o'r blaen. Beth am bobl eraill?

Llên Natur



Cysylltwch â Llên Natur : llennatur@yahoo.co.uk



Cofiwch : **CYMUNED LLÊN NATUR** (grŵp Llên Natur) ar Facebook

Blodeuo cyntaf



Cyfrannwyd y llun gan Iwan Roberts

Heddiw, Ionawr 25^{ain}. Gobaith am y gwanwyn - mae llygaid Ebrill (*Ranunculus ficaria*) yn ymddangos yn yr ardd gefn heulog 'ma yn gynnwys bob blwyddyn, er gwaetha'r enw. Braf iawn eu gweld. Ymysg enwau eraill yn Gymraeg (o lyfr Dafydd Dafis ac Arthur Jones) yw: bronwst; gwenith y ddaear; melyn y gwanwyn; llygaid y diniwed a dail y peils. Mae'r olaf yn cyfeirio at yr arferiad o wneud eli o'r gwreiddiau ar gyfer clwy' marchogion.

Iwan Roberts

Dwi ddim yn siwr pa mor "braf iawn" oedd ei weld o (mor gynnwys). Sinistr faswn i'n ddeud.

Newydd bori ymhellach. Dyma'r cynharaf yn y Tywyddiadur - RHAGFYR!!

"Saw my first Lesser Celandine flower last week on the hill above our house, but that's not unprecedented." 22/12/2011

Cafwyd rhai ymysg blodau dydd Calan yng Nghaerdydd yn 2012. Dyma fwy o gofnodion ar Facebook:

Cymuned Llên Natur: <https://goo.gl/bLLZUK>

Mae dyddiadau 'blodeuo cyntaf' hwn yn y ganrif ddiwethaf (y tri degawd cyntaf i gyd fel mae'n digwydd) i gyd ym mis Mawrth. Mae'r dyddiadau 'gefn gaeaf' rydyn ni wedi eu gweld ers y mileniwm yn arwydd ei-tha digamsyniol o newid yn ffenoleg y planhigyn hwn. Mae'r enw LLYGAD EBRILL bellach â thinc hiraethus am fyd sydd bellach wedi ein gadael am byth!

Llên Natur

Gallini Aberhonddu

Roedd gennym (DB) gymdogion o ffermwyr (teulu lleol ond di-Gymraeg) pan yn byw ar gyrion Aberhonddu. Roedden nhw'n eu galw nhw'n 'gleaneys' ar lafar. Cymerodd flynyddoedd i mi sylweddoli (dwi'n cymryd mod i'n iawn) mai o'r Eidaleg 'gallini' roedd y gair yn dod - gwaddol carcharorion rhyfel Eidalaidd yn yr ardal dwi'n dyfalu (anghofiaf rwan os freuddwydais hyn'na!). Oes yna rhywun gyda chysylltiadau â'r ardal yn gallu cadarnhau? Ydi'r gair "gleaneys" yn gyfarwydd i chi? Cofiwch ddweud BLE).

Er bod yr aderyn yn dod o Affrica, ei enw Llydaweg yw *yar Spagn* - iar o Sbaen - ("pintade" yn Ffrangeg, o'r Portwgaleg "pintada" - yr aderyn sydd wedi ei baentio). Mae unrhyw beth sydd yn dod o bell yn dwyn yr enw "Spagn" ond os ydi pethau yn dod o bellach maent yn dwyn yr enw "Turki" sef pen pellaf y byd Llydaweg! Enw'r twrci yn y Llydaweg yw *yar Indez*, yn debyg iawn i'r enw Ffrangeg *dinde* (ben.), *dindon* (gwr.) gan gyfeirio at India, nid y wlad ond y cyfandir oedd newydd gael ei ddarganfod, sef America. Mae'r iaith Saesneg wedi mabwysiadu Gini (*Guinea*) ar gyfer anifail bach o dde-America lle mae'r Ffrangeg yn ei alw'n "cochon d'Inde" ("mochyn India").

Dominig Kervegant

Galliformes - Urdd o adar trwm:

<https://goo.gl/mEAJ4o>

(Dolen erthygl Wicipedia ydi hwn. Beth am ei ddatblygu ymhellach?)



Ilun gan Bethan Vaughan Davies

Cuddio'n pechodau?



Anaml fyddan ni'n rhannu eitemau o'r Wê Fawr ond mae hon yn gorffod bod yn haeddu ein sylw - diolch i Gareth Pritchard sy'n dweud:

Cuddio'n pechodau - onid oes yma neges bwysig i ni i gyd?

Cydnabir gwaith Ferdi Rizkiyanto: <https://goo.gl/NvGMpa>

Y milwr cyffredin: gwellt a gwair - chwith a de



Mae'r llun hwn o'r gyfres "Plouz-Foenn" yn cynnwys gêm addysgiadol i ddysgu enwau rhannau corff adar - Dolen y werslyfr:

<https://goo.gl/61UPL3>

Mae nifer o lyfrau mewn ysgolion dwyieithog yn Llydaw yn dwyn yr enw 'Plouz-foenn' (gwellt-gwair). Cyfeiria'r teitl i amser rhyfeloedd gwahanol yn Ffrainc pan nad oedd milwyr Llydewig, ffermwyr y rhan fwyaf, yn medru fawr o Ffrangeg, ac wrth fartchio roedd y sarjant yn gweiddi arnynt plouz-foenn yn lle chwith-de neu "gauche-droite" -.

Cofiaf innau stori debyg gan dad i Richard Williams, am filwyr uniaith Cymraeg yn y rhyfel gyntaf yn marchio i synnau "gwellt-gwair" am yr un rheswm, a'r ymadrodd wedi parhau ar fferm y teulu i helpu Richard fel plentyn bach i wahaniaethu ei law chwith a'i law dde.

On a souvent pris les Bretons pour des ignares sous prétexte qu'ils maîtrisaient mal le français et on raconte, sous la tour Eiffel, comment au service militaire on leur apprenait à marcher au pas en leur faisant scander non pas une-deux, une-deux, mais : Plouz, foenn [Gwellt, gwair], Melloù galochoù... [esgidiau cerdded – mawr a thrum!].

Cyfieithiad: Yn aml yn y gorffennol cymerwyd y Llydawyr fel pobl diglem am na lwyddon nhw yn aml i feistrolir Ffrangeg oherwydd eu mân siarad Llydaweg o dan Tŵr Eiffel ... Cawson nhw eu pechu tra'n gwasanaethu yn y fyddin trwy eu dysgu i oymdeithio gyda'r geiriau "gwellt-gwair", "gwellt-gwair" fel petaen nhw'n rhy dwp i ddeall chwith a de.

Wedi bod yn siopa...



Oedemera nobilis Chwilen goesdew

Dyddiad cyhoeddi : 07-10-2013

Tregarth Cyfrannwyd y llun gan Aziliz Kervegant

Nodyn a llun gan Sion Jones, Abergele 29 Ionawr 2019: "Wedi bod yn siopa. Pan gyrraeddais 'nôl i'r car, sylwais ar y pryfedyn bach 'ma (llun 1). Roedd yn gyfforddus ar fy llaw. (Cyfeirnod grid SH 942 742)"

Llun 1: *Oedemera femoralis*

Dyma farn arbenigol Mike Howe, entomolegydd CNC: "Looks like *Oedemera femoralis* which is Nationally Scarce and not that many Welsh records."

Llun 2: Map yn dangos lleoliad bras cofnod Sion.

Cofnod da. Perthynas agos i'r chwilen gyffredin *O. nobilis* (3). Y map yma yn dangos 'man poeth' o gwmpas ardal Sir Conwy. Ella bydd cofnod Sion mewn sgwar newydd ar y map (ar ôl trafod ar y ffôn daeth yn amlwg mai TU ALLAN i'r car welodd Sion y pry cyntaf, felly NID wedi cael ei gario yno yn y car oedd o mae'n debyg.)

Beth am fedyddio chwilen Sion am y tro yn CHWILEN MANGOESOG (neu chwilen coesau mannog?). Mae'r cofnod wedi ei anfon i Cofnod - mae ei chwaer rhywogaeth yn llawer mwy cyffredin a chyfarwydd - y chwilen goesdew.

Dyma lun Catrin Aziliz ohonni: Llun 3

Angen cyfraniadau i erthygl Wikipedia i gofio TG Walker - athro, naturiaethwr ac awdur (Sylwadau Cymuned Llên Natur)

A'r hen Craven A rhwng ei fysedd!!! (Yn ôl yr arfer, wedi gorfod nol sawl paced o'r siop iddo pan yn ddisgybl yn yr Henblas.

Derec Owen



Rhagfyr 1951, Henblas, Môn

Roedd fy nhad, William Evans yn dipyn o ffrindia efo fo, ac ar ôl colli ei wraig Margot mi fydda fo'n dwad aton ni am swpar bob nos Fercher a Nos Sul. Dwi'n cofio mynd efo mam a dad i'w ddanfôn at un o feddygon y ddafad wyllt ym Mhencaerau, Pen Llŷn fwy nag unwaith i gael triniaeth ar y ddafad wyllt oedd ganddo ar ei drwyn. Mi ddisgynnodd honno i ffwrdd gan adael pant go hegar yn ei drwyn! Roedd o hefyd yn brifathro arna i am ryw flwyddyn yn Ysgol Henblas. Dwi'n cofio fod gen i dipyn o'i ofn!

Dyma gofnod diddorol am wenci (NID carlwm) gwyn o eiddo Walker - roedd yr un mor barod ei Saesneg a'i Gymraeg:

It is stated categorically in most nature-books that British Weasels never change colour; but I have handled one white Weasel, and Mr. C. F. Tunnicliffe made a measured drawing of it because it was so very unusual. This was found dead in a gin in the Henblas district during December 1951. Apart from a patch of light brown on the crown and on the nape,

and its rather grizzled tail, the animal was beautifully white. TG Walker *The Birds of Anglesey* (MS gwreiddiol o eiddo William Evans)

Chi gyn-ddisgyblion a chydabod "Wak", dewch a'ch atgofion -

https://cy.wikipedia.org/wiki/T.G._Walker?wprov=sfti1 ar Wikipedia

Cyfaill gorau'r amaethwr

Mae Twm Elias wedi tynnu sylw Llên Natur i erthygl TG Walker o'r *Herald Gymraeg* (Rhag 1954). Coethni iaith Walker sydd yn mynd â bryd Twm fwyaf - ond mae'n dda hefyd ail ymweld â'r hen ysgrifau yma am eu cynnwys hefyd. Tua diwedd yr erthygl mae'r hanesyn hwn:



Cornchwiglen yng Ngwarchodfa Natur Conwy, Mai 10, 2011 - Cyfrannwyd y llun gan Eifion Griffiths - 13/05/2011

"Enillodd y gornchwiglen enw iddo'i hun fel cyfaill gorau'r amaethwr am ei bod yn ymborthi'n gyson ar bob math o gynrhon, llyngyrod a lindys sy'n niweidio'r cnydau. Chwi glywsoch sôn, yn ddiamau, am yr aflwydd a ddaw o dro i dro ar ddefaid; "Liver Fluke" yw'r enw Saesneg arno, ond Clwy'r Dŵr a ddywedwn ni yng Nghymru amdano. Rhyw greadur bach tebyg i leden sydd wrth wraidd yr helbul, yn datblygu o'r tu mewn i iau'r ddafad ac yn ei lladd mewn amser. Y mae dechreuad lleden fach yr iau megis wŷ bychan bach, y mymryn lleiaf erioed, yn llai na phen pin; ac y mae yntau'n byw ar falwoden fechan a ymbortha ar laswellt. Pan fydd y ddafad yn pori, fe lynca'r falwoden ynghyd â'r glaswellt, a dyna sut y caiff lleden fach yr iau fynedfa i'w pherfedd.

Beth sydd a wnelo hyn â'r gornchwiglen? Y mae'r aderyn yn bwyta cannoedd o'r malwod bob blwyddyn, a thrwy hynny yn difa'r wya niweidiol ac yn arbed y defaid rhag yr aflwydd. Nid oes ryfedd yn y byd iddi felly ennill parch ac edmygedd y ffermwyr. Erbyn hyn, mae'r mwyafrif ohonynt yn sylweddoli mai ynfyrwydd yw codi gwn ati a dwyn ei hwyau; ond esgeulus yw amryw ohonynt o'i nyth pan yn hau a llyfnu tir â'r."

Hyd y gwyddom heddiw, oedd Walker yn gywir yn canmol y gornchwiglen (*criglan* yn iaith Sir Fôn) am gadw'r clwy'r dŵr (ffliwc) draw o'r ddiadell? Os felly, pam nad oedd y gornchwiglen yn cael ei heintio (neu efallai ei bod hi)?

Clywais mai ar ferwr y dŵr mae'r ffliwc yn byw fwyaf - ydi o yn byw mewn porfa sychach lle mae dafad yn fwy agored i'w godi? Oes gan unrhywun brofiad o'r clwy'r dŵr?

"Mae'r erthygl yn sôn am ffliwc yr afu *Fasciola hepatica* a'i organeb letyol ryngol y falwoden *Galba truncatula* (*Limnaea truncatula* mewn hen lyfrau). Mae'r awdur wedi hepgor un cam o'r cylch bywyd. Nid yw'r defaid yn llyncu'r malwod. Mae'r malwod yn rhyddhau "*cercaria*" sy'n trawsffurfio ar y borfa i "*metacercaria*". Mae'r defaid yn dal yr haint drwy llyncu'r "*metacercaria*". Felly pan fydd adar yn llyncu *Galba truncatula*, nid ydynt yn llyncu'r "*metacercaria*" sy'n heintus i ddefaid. Ond hyd yn oed petai aderyn yn llyncu "*metacercaria*" *Fasciola hepatica* ni fyddai'r ffliwc yn datblygu, oherwydd bod *F. hepatica* yn effeithio ar gilgnowyr gan mwyaf ac yn achlysurol ar famaliaid eraill (gan gynnwys dynion) ond nid ar adar. (Ceir rhywogaethau o ffliwc sy'n effeithio ar adar ond dyna stori arall).

Mae *Fasciola hepatica* yn broblem sylweddol yng Nghymru yn enwedig ar ôl gwanwyn a haf gwlyb. Mae'n debyg bydd y sefyllfa yn gwaethgu oherwydd cynlluniau amgylcheddol sy'n hybu llai o ddraenio yn yr ucheldiroedd."

Jackie Willmington (milfeddyg)

Dyfrydws



Newydd ddod ar draws hwn
mewn hen rifyn Bwletin Llên
Natur:

Meddai Robin Gwyndaf -
"Ydych chi tybed yn gyfarwydd
â'r dywediad 'Llyncu dyfrydws',

am ferch yn disgwyl teulu. Clywais hyn gan Eleri (Glyn Ceiriog).
(Cymh. 'llyncu pry'). Byddai gwartheg yn llyncu'r prifyn hwn
wrth yfed dŵr, yna byddai eu boliau'n chwyddo. Methais â
gweld yr enw yng Ngeiriadur y Brifysgol. Oes ffurf arall ar yr
enw? Beth yw'r enw gwyddonol a Saesneg? Pa mor gyffredin
yw'r dywediad?"

Dyma Andrew Hawke (Gol. GPC):

Wedi chwilio 'bloat' yn GPC, deuthum o hyd i 'dyfodwst', ayb.
(llun tud. GPC gyferbyn). Mae hyn yn esbonio 'dyfrydws',
rwy'n credu (sylwer ar ffurf lafar Môn 'dyfdwst'), er bod y
tarddiad yn parhau'n ddirgelwch (ond mai 'gwst' yw'r ail
elfen) rwy'n credu ei bod hi'n [debygol] mai 'tafod' yw'r elfen
gyntaf. Ceir erthygl arall yn GPC dan y gair 'tafodwst' sydd
hefyd yn cynnwys yr un engh. o'r Llyfr Coch ag a geir o dan
'dyfodwst' - heb i'r golygyddion sylweddoli, siŵr o fod!
Mae Huw Meirion Edwards wedi golygu'r gerdd erbyn hyn yng
nghyfres Beirdd yr Uchelwyr (Gwaith Madog Dwygraig), lle
mae'n cymryd mai 'tafodwst' sydd yn y gerdd, sy'n rhestru
pob math o wendidau mewn llo mae'r bardd wedi'i dderbyn
yn rhodd.

Mae'r enghraifft honno yn awgrymu mai 'tafawd'/'tafod'
yw'r bôn, ond cafodd golygyddion GPC eu camarwain gan
ychydig o ffurfiau yn dd- sy'n awgrymu ffurf gysefin d-.

Mae llawer o gymysgu o ran y gwahanol glefydau, ac mae'n
bosibl bod 'bloat', 'barb' a 'wooden tongue' wedi'u cymysgu
gan fod y canlyniad yr un fath - sef tranc yr anifail gyda chw-
ydd (yn y bol neu yn y geg). Hefyd, wrth gwrs, roedd yna gred
bod llawer o'r clefydau hyn yn cael eu hachosi drwy 'lyncu pry'
o ryw fath.

Mae yna sefyllfa yn "Far from the Madding Crowd" Thomas
Hardy yn disgrifio'r bugail Gabriel Oak yn gorfod achub ei dde-
faid o'r cyflwr o chwyddo, trwy eu clwyfo gyda bidog i ryd-
dhau gwynt - "Sheep bloat"? Mae gen i gof i gymeriad Hardy
ddweud mai porfa gorfaethlon sy'n achosi'r cyflwr.

Dyma Andrew Hawke eto: "Gyda llaw, mae 57 o eiriau yn
GPC am wahanol gyflyrau sy'n gorffen yn '-wst' (o'r gair
'gwst').

Dyma rai geiriau eraill yn GPC sy'n sôn am glefydau yn
ymwneud â'r bol/tafod yn chwyddo neu galedu:

clwy'r llyffant (a hefyd llyffant ar ei ben ei hun) (=S. 'barb')
gwaith y pry(f) (= 'barb')
llyffannwst, llyffannws, llyffantws (hefyd llyfanws) (= 'frog')
llyffandafod (= 'wooden tongue')
llyffant melyn (= 'wooden tongue')
pothell (= 'barb') (hefyd ffothell)
salwch y pry (gw. dan y gair llyffannwst)
tafodwst (= 'barb')

Digwyddais i weld hyn ddoe yn Siôn Gwilym (Tan-y-foel):
Dywediadau Gwlad y Medra, 1999, 62-3:" [atodiad isod]

dyfodwst

1999

Ar lafar ym Môn

Dwdwst, dowdwst, twdws

Dyfodwst yn ôl *Ceiriadur Prifysgol Cymru*. Cyflwr sy'n effeithio ar
unrhyw anifail sy'n cilgnoi megis gwartheg, defaid a geifr - pan fo'r
rhumen, y brif stumog, yn llenwi a chwyddo efo nwy methan. Gan
amlaf daw'r cyflwr wedi i'r anifail fwyta gormod o borfa ifanc heb
ddigon o arwfyd (*roughage*) ynddi, neu ar ôl bwyta gormodedd o

62

ebran (blawd grawn). Fe chwydda ochr chwith y bol yn enfawr a
rhoddir pwysedd aruthrol ar yr ysgyfaint a'r galon yn enwedig, ac os
na chaiff y cyflwr ei drin yn fuan gall achosi'r farwol i'r anifail druan.
Heddiw gall milfeddygon drin y cyflwr, ond yn y dyddiau gynt
roedd llawer ffermwr a phorthwr yn ddigon medrus i gyflawni'r
driniaeth eu hunain gyda'r un math o gelfi ag a ddefnyddiai
milfeddygon. Gelwir y celfi yn *trochor* a *cannula*, ond 'llawes' a
'thrywain' y galwai'r bobl hynny a'u defnyddiai ym Môn hwy. Tiwb
pres oedd y llawes, yn culhau yn yr ysgwydd ac o'r ysgwydd
ymestynnai tiwb main pen agored. Llafn hir a main miniog o ddur
oedd y trywan, a oedd yn lithro i mewn i diwb main y llawes.
Gosodid a gwasgid y llawes i ran uchaf y chwydd ym mol yr anifail
cyn trywanu'r croen a wal y stumog gyda'r trywan a gadael i diwb
main y llawes lithro i mewn i'r stumog. Wrth dynnu'r trywan ymaith
fe ruthrai'r nwy methan allan a gostwng chwydd y stumog.

DGM 62-3

Gw. hefyd tafodwst. (?angen cyfuno *dyfodwst* a *tafodwst*)

Canrif o newid

**Aeth Anita Butler i ail-dynnu'r hen lun du-a-gwyn
er mwyn cymharu**

Llun Iliw: Llawer mwy o rug wedi gorchuddio'r sgri
oedd yn foel ers talwm. Gwair(?) wedi cael ei bafio.
Proffil copa'r Graig Lwyd yn dangos effeithiau'r
chwarel? *Cordelyne* trofannol wedi ei blannu yngha-
nol y pafio diweddar.

Llun du a gwyn: Unrhyw gynigion ar ba ddegawd y
ganrif ddiwethaf yw hwn (dillad a chap y bachgen
efo'r mul, pa bryd daeth y gwasanaeth mulod glan y
môr i ben yno?).



Beth yw ystyr mynawyd yn “mynawyd y bugail”?



BETH YW YSTYR MYNAWYD yn mynawyd y bugail, gofynnodd Catrin Roberts

Twlsyn pigfain ydi mynawyd. Sef *bradawl* yn y Saesneg. Tebyg ei siâp i'r pigyn sydd ar ôl wedi'r planhigyn gorffen blodeuo.

Richard Neale

Dyma Iwan Roberts yn trafod: “Dyma ddiddorol. Rydw i wedi arfer cyfeirio at y TEULU *Geranium*, h.y. yr holl rywogaethau yn y genws, fel Mynawyd y Bugail, ond wrth drafod rhywogaethau unigol cyfeirio atynt, yn gam neu'n gymwys, fel Pig yr Aran..... (ee ruddgoch, y weirglodd, larpiog, ayb.) AR WAHAN i *G. robertanum* - y goes-goch neu lysiau'r llwynog ydi hwnnw i mi. Mae rhestr Cym. Edward Llwyd yn defnyddio 'mynawyd y bugail' ar gyfer PELARGONIUM yn unig - sef planhigion gardd sy'n perthyn i'r un teulu mawr, y GERANIACEAE, ond sydd mewn genws gwahanol. Mae llyfr Dafydd Dafis ac Arthur Jones, Enwau Cymraeg ar Blanhigion, ar y llaw arall, yn cyfeirio at mynawyd y bugail fel enwau i *G. robertanum* a *G. dissectum* yn unig. Mae'r busnes enwau 'ma yn ddiddorol ond dryslyd ac yn codi yr hen gwestiwn oesol am safoni enwau a thrysori amrywiaeth.”

Mae'r gair Llydaweg *minaued* yn golygu twlsyn roedd pysgotwyr môr yn defnyddio i drwsio eu rhwydi a'u rhaffau yn bennaf. Mi ges i fraint o fynychu'r un ysgol â chriw o “*Vinaoued*” oherwydd y ffaith mai dyma beth yw hefyd y llysenw roedd pobl An Oriant/Lorient yn ei rhoi i drigolion plwyf gyfagos Lokmikaelig/Locmiquelic (mae llun ar y dde yn dangos criw o forwyr “*Minaoued*” ifanc ar droead y ganrif diwethaf). Minaoued yw hefyd yr enw a roddir ar y teclyn roedd gweithwyr yn defnyddio i lenwi'r gagendor rhwng planciau cychod. Ystyron eraill: cal baedd, cwch o blwyf môr Rianteg/Riantec ger An Oriant/Lorient, enw afon yn ardal Konkerne/Concarneau. DK

Hyfrydbeth



Drysu rhwng gwisgoedd haf a gaeaf y pibyddion

LLun cyntaf - pibydd y tywod - gaeaf

Ail lun - pibydd y tywod - haf

Lluniau Alun Williams



Cofiwch glicio ar ddolenau'r bwletin hwn!

Tylluanod - R. Williams Parry


Yr Ail Bennill

Bu R. Williams Parry yn Brifathro Ysgol y Sarnau am rhyw naw mis rhwng 1912 a 1913. Yn ystod yr amser yma byddai'n lletya gyda'i chwaer oedd yn byw yn Llandderfel.

Magwyd y Parch Dafydd Rees Roberts ar Fferm Derw Goed rhwng Llandderfel a Chefnoddwysarn, ac mae Llyn y Ffridd ar dir y fferm. Mae'n cofio gweld llawer o hwyaid gwylltion, rhyw 20 i 30 ar y tro ar y llyn sydd hefyd gyda'r enw Llyn Maes y Clawdd.



Hen Ysgol Y Sarnau




Y Llyn wedi iddi nosi



Llyn Y Ffridd



Coed y Mynydd Du



**Pan siglai'r hwyaid gwylltion
Wrth angor dan y lloer
A Llyn y Ffridd ar Ffridd y Llyn
Trostynt yn chwipio'n oer.**

**Lleisio'n ddidostur wnaent i ru
Y gwynt o Goed y Mynydd Du.**



Gwrandewch ar y tylluanod :

[https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Tawny_Owl_\(Strix_aluco\)_\(W1CDR0001519_BD8\).ogg](https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Tawny_Owl_(Strix_aluco)_(W1CDR0001519_BD8).ogg)
(Wikipedia)